

SL(6)534 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024

Cefndir a diben

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 13 ac Atodlen 14 i Ddeddf 2023.

Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod yn Atodlen 13 newid canlyniadol i Ddeddf Harbyrau 1964.

Mae rheoliad 4 yn hepgor paragraff 73 o Atodlen 13.

Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2023 hefyd yn gwneud newidiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990"). Mae Deddf 1990 wedi'i diwygio ers hynny gan Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yng ngoleuni'r diwygiadau hynny.

Mae Atodlen 14 i Ddeddf 2023 yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed. Mae rheoliad 22 yn mewnosod darpariaeth arbed bellach yn Atodlen 14.

Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (**Darpariaeth Ganlyniadol**) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024 (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 13 ac Atodlen 14 i Ddeddf 2023. Mae Atodlen 13 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau, mae Atodlen 14 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed. Mae'r diwygiad a wneir i Atodlen 14 gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n ystyried mai 'Darpariaeth Ganlyniadol' yw'r geiriad priodol i'w ddefnyddio yn nheitl y Rheoliadau hyn, neu a ddylai gyfeirio hefyd at y ddarpariaeth arbed?

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod y Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol ag adran 209(5)(h) o Ddeddf 2023.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir nad yw Atodlenni 13 a 14 i Ddeddf 2023 mewn grym eto. Yn unol â Gorchymyn (Cychwyn) 2024 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, bydd Atodlenni 13 a 14 yn dod i rym ar 4 Tachwedd 2024. Daw'r Rheoliadau hyn, os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd, i rym ar 3 Tachwedd 2024.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nid oedd y Rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad ac nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi. Nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

14. *Nid oes unrhyw ymgynghori wedi'i gynnal ar y rheoliadau, gan eu bod yn adlewyrchu'r polisi presennol ac yn ailddatgan y gweithdrefnau presennol.*

15. *Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn, gan fod y rheoliadau'n ailddatgan rheoliadau presennol. Nid yw'r rheoliadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer y pwynt adrodd cyntaf.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

